

**Gwybodaeth am eich  
apwyntiad uwchraddio  
cymorth clyw**

**Gwasanaeth Awdioleg Gwent**

## **Cyflwyniad**

Mae'r daflen wybodaeth hon yn amlinellu'r gofal y byddwch chi'n ei gael pan fyddwch chi'n mynychu'r Adran Awdioleg ar gyfer uwchraddio eich cymorth clyw.

Byddwn yn tybio eich bod yn rhoi eich caniatâd i gael un o'r triniaethau hyn pan fyddwch chi'n mynychu'r apwyntiad. Cofiwch y gallwch ddweud yn ystod yr apwyntiad os na fyddwch chi'n dymuno parhau gyda'r profion.

Rydyn ni'n eich annog yn gryf i ddod â ffrind neu aelod o'r teulu i bob apwyntiad. Cofiwch ddweud wrthym dros y ffôn neu pan fyddwch chi'n cyrraedd y clinig os hoffech chi gael eich gweld ar eich pen eich hun.

Os byddwch chi angen unrhyw gymorth i gyfathrebu, cofiwch ffonio'r adran gyda manylion yr iaith yr hoffech gyfathrebu ynddi a byddwn yn gwneud ein gorau i drefnu hyn ar eich cyfer.

Bydd eich apwyntiad gydag Awdiolegydd cwbl gymwysedig sydd â phrofiad mewn gosod cymhorthion clyw i oedolion. Fel yr ydych yn derbyn cymhorthion clyw newydd, mae'n rhaid dychwelyd eich par gwreiddiol.

## **Yn ystod eich apwyntiad**

Bydd yr Awdiolegydd yn gwirio maint y darn clust a ddewiswyd ar eich cyfer. Mae dau fath sy'n cael eu defnyddio:

Mowld clust o'r mesur cywir sydd wedi'i wneud ar eich cyfer o'r argraff a gymerwyd yn ystod apwyntiad eich asesiad. Byddwn yn gwirio'r mowld clust i sicrhau ei fod yn gyfforddus i chi. Bydd y tiwb sy'n mynd trwyddo'n cael ei dorri i'r hyd cywir. Tiwb "sy'n ffitio clust agored" gyda chromen fydd yn cael ei mesur i ffitio'n gywir.

Byddwn ni wedyn yn cysylltu'r cymorth clyw i'r darn clust gan ddefnyddio'r tiwb a gosod y cymorth clyw y tu ôl i'ch clust.

## **Profi'r cymorth clyw**

Byddwn yn cynnal profion i sicrhau bod y cymorth clyw wedi'i osod yn gywir ar gyfer eich diffyg clyw a siâp a maint eich clust chi. Bydd y profion hyn yn gofyn am wrando ar synau sy'n dod drwy seinydd ar y ddesg. Byddwn yn dechrau drwy roi tiwb bychan a darn clust yn eich clust a'r cymorth clyw wedi'i gysylltu iddyn nhw. Mae'n bosibl y bydd rhai o'r synau'n eithaf

uchel ond ni ddylent achosi unrhyw anghysur. Bydd yr Awdiolegydd wedyn yn defnyddio'r profion hyn i wneud addasiadau bach i'r cymorth clyw a sicrhau ei fod wedi'i osod yn dda ar eich cyfer.

## **Gosod rheolyddion y cymorth clyw**

Bydd yr anghenion y cytunwyd ar ddechrau'r apwyntiad yn helpu'r Awdiolegydd i benderfynu pa raglenni y byddwch ei hangen ar y cymorth clyw er mwyn cael y budd mwyaf allan ohono.

## **Cyngor a cymorth pellach**

Mae'n bwysig cofio bod pob person yn unigolyn gydag anghenion gwahanol. Bydd yr Awdiolegydd yn trafod sut byddwch chi'n addasu i'r cymorth clyw.

Mae'n normal i'r cymorth clyw swnio'n ddieithr ar y dechrau, gall gymryd ychydig fisoedd i chi ddod yn gyfarwydd â sŵn y cymorth clyw. Byddwn yn trafod hyn gyda chi yn fwy manwl ac ar sail eich cynllun rheoli personol, byddwn ni'n egluro sut bydd y cymorth clyw o fudd i chi.

**Yn ystod yr apwyntiad, os bydd unrhyw beth y byddwch chi'n ansicr ynglyn ag ef, cofiwch ofyn ar unwaith.**

**“Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /  
This document is available in English”.**